



---

**Polisi S4C - Rhyddhau Hawliau yn Gynnar**

Ebrill 2016

---

## Cyflwyniad

Yn unol â gofynion Adran 285 Deddf Cyfathrebu 2003, mae S4C wedi nodi'r egwyddorion a weithredir pan fydd cynnwys yn cael ei gomisiynu gan gynhyrchwyr annibynnol, mewn Cod Ymarfer a gymeradwywyd gan Ofcom.

Yn ogystal, mae canllawiau Ofcom ynghylch llunio Cod Ymarfer yn disgwyl i Ddarlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus weithredu polisi ffurfiol ar gyfer rhyddhau yn gynnar o'r cyfnod pan fydd gan y darlledwr comisiynu hawliau ecsgliwsif (y cyfeirir ato fel y cyfnod dal yn ôl) mewn cysylltiad â rhaglen a gomisiynwyd.

Mae'r polisi hwn yn nodi'r egwyddorion a weithredir gan S4C wrth ystyried ceisiadau i adolygu a/neu ildio'i chyfnod dal yn ôl ecsgliwsif, gan amlinellu'r weithdrefn a'r amserlen awgrymedig ynghylch prosesu cais hefyd.

### 1. Telerau Safonol S4C

- 1.2 Ar gyfer y mwyafrif o *genres*, mae'r Cod Ymarfer a'r Telerau Safonol yn caniatáu cyfnod pum mlynedd ecsgliwsif i S4C i ddarlledu yn y Deyrnas Unedig gyda hawl i ymestyn am ddwy flynedd ychwanegol. Yn achos rhaglenni plant a rhaglenni addysg, mae gan S4C gyfnod o saith mlynedd ecsgliwsif, gyda hawl i ymestyn am dair blynedd ychwanegol.
- 1.3 Mae cyfnod dal yn ôl yn sicrhau bod S4C:
  - yn diogelu natur ecsgliwsif yr hawliau a sicrhawyd gan S4C am gyfnod rhesymol,
  - gan ehangu'r gynulleidfa bosibl ar gyfer rhaglenni Cymraeg mewn amgylchedd cystadleuol ac aml-lwyfan gymaint ag y bo modd;
  - yn cyfiawnhau gwerth y buddsoddiad yn y rhaglenni gymaint ag y bo modd; ac
  - yn sicrhau fframwaith agored, cyson a thryloyw ar gyfer buddsoddiad S4C yn ei rhaglenni.
- 1.4 Mae'r tabl isod yn amlinellu'r cyfnodau dal yn ôl arferol ar gyfer rhaglenni S4C mewn perthynas â defnydd gwahanol o'r rhaglenni hynny. Lle bo'r rhaglen yn gyfres, mae'r cyfnod dal yn ôl yn cael ei gyfrifo o ddyddiad darllediad cyntaf pennod olaf y gyfres ar S4C.
- 1.5 Ar gyfer cyfresi sy'n dychwelyd, gweler 2.4 isod.

## Cyfnodau Dal yn Ôl Arferol

Defnydd	Cyfnod dal yn ôl yn y DU	Cyfnod dal yn ôl tu allan i'r DU
Darllediad gan ddarlledwr arall	O ddyddiad creu'r rhaglen tan ddiwedd Cyfnod y Drwydded	O ddyddiad creu'r rhaglen tan 24 awr ar ôl i S4C ddarlledu'r rhaglen am y tro cyntaf ar S4C.
Gwerthiant ar DVD	O ddyddiad creu'r rhaglen tan 7 diwrnod ar ôl dyddiad darllediad cyntaf pennod olaf y rhaglen ar S4C	O ddyddiad creu'r rhaglen tan 24 awr ar ôl i S4C ddarlledu'r rhaglen am y tro cyntaf ar S4C.
Llifo ar-lein (am dâl) / Lawrlwytho i'w berchen (DTO)	O ddyddiad creu'r rhaglen tan 7 diwrnod ar ôl dyddiad darllediad cyntaf pennod olaf y rhaglen ar S4C	O ddyddiad creu'r rhaglen tan 24 awr ar ôl i S4C ddarlledu'r rhaglen am y tro cyntaf ar S4C.
Llifo ar-lein am ddim	O ddyddiad creu'r rhaglen tan ddiwedd Cyfnod y Drwydded	O ddyddiad creu'r rhaglen tan 24 awr ar ôl i S4C ddarlledu'r rhaglen am y tro cyntaf ar S4C.
Fideo ar alw o dan danysgrifiad (SVOD) / Fideo ar alw wedi'i noddi gan hysbysebion (AVOD)	O ddyddiad creu'r rhaglen tan ddiwedd Cyfnod y Drwydded	O ddyddiad creu'r rhaglen tan 24 awr ar ôl i S4C ddarlledu'r rhaglen am y tro cyntaf ar S4C.
Theatrig	O ddyddiad creu'r rhaglen tan ddiwedd Cyfnod y Drwydded	O ddyddiad creu'r rhaglen tan 24 awr ar ôl i S4C ddarlledu'r rhaglen am y tro cyntaf ar S4C.

- 1.6 Mae'r cyfnodau dal yn ôl ynghylch gweithgarwch ymelwa gan y cynhyrchydd yn berthnasol i'r DU yn unig, ond mae'n rhaid i'r cynhyrchydd allu bodloni S4C na fydd unrhyw weithgarwch ymelwa y tu allan i'r DU, megis trwy gyfrwng y rhyngwrdd, technoleg symudol neu ddarlledu lloeren (ag eithrio gorlifiad anfwriadol signal lloeren i'r DU), yn arwain at sefyllfa lle y bydd modd gwyllo'r rhaglen yn y DU yn ystod y cyfnod dal yn ôl.

## 2. Egwyddorion sylfaenol ar gyfer rhyddhau hawliau dal yn ôl yn gynnar

- 2.1 Er bod y Cod Ymarfer yn diogelu natur ecsgliwsif yr hawliau a fydd yn ofynnol gan S4C, mae'r polisi ynghylch rhyddhau hawliau dal yn ôl yn gynnar yn cynnig yr hyblygrwydd a'r cwmipas i'r cynhyrchydd fanteisio ar gyfleoedd ymelwa, gan

gynnwys cyd-gynhyrchu, ail-fersiynu cynnwys, gweithgarwch ymelwa eilaidd o fewn y DU neu'r cyfle i ffurfio partneriaethau newydd.

- 2.2 Gall S4C gytuno i ryddhau'r hawliau dal yn ôl yn gyfan gwbl, neu eu cadw mewn grym ond gan ganiatáu achosion penodol o weithgarwch ymelwa.
- 2.3 Os bydd S4C yn cytuno i ryddhau'r hawliau dal yn ôl yn gynnar, neu'n cytuno i eithriadau iddynt, ni fydd hyn yn effeithio ar hawl S4C i barhau i ymarfer yr hawliau y rhoddwyd i S4C yn unol â thelerau'r drwydded ar sail an-ecsgliwsif.
- 2.4 Ar gyfer cyfresi sy'n dychwelyd, heblaw y cytunir fel arall yn y drwydded, fe fydd S4C yn cytuno i ryddhau'r gyfres gyntaf ar ôl darllediad cyntaf pennod olaf trydedd gyfres y rhaglen ar S4C ac yn y blaen (felly fe fydd S4C yn rhyddhau'r ail gyfres ar ôl darllediad pennod olaf y bedwaredd gyfres ayyb). Os penderfynir peidio comisiynu cyfres bellach, bydd S4C yn cytuno i ryddhau'r holl gyfresi wedi i'r cyfnod dal yn ôl arferol ar gyfer y gyfres derfynol ddod i ben.

### **3. Meini prawf ar gyfer gwneud cais i ryddhau hawliau dal yn ôl yn gynnar**

- 3.1 Bydd S4C yn ystyried rhyddhau'r hawliau dal yn ôl yn gynnar ar yr amod na fydd eu rhyddhau'n gynnar, ym marn S4C, yn tanseilio natur ecsgliwsif y rhaglen ar gyfer y gynulleidfa y bwriadwyd y rhaglen ar ei chyfer, nac yn dibrisio'r buddsoddiad a wnaethpwyd gan S4C (e.e. gall lefel yr hyblygrwydd wrth drafod y cyfnod dal yn ôl ar gyfer buddsoddiad o bwys neu ar lefel uchel, fod yn gyfyngedig).
- 3.2 Bydd S4C yn disgwyl cael ei digolledu am gytuno i ryddhau unrhyw hawliau dal yn ôl yn gynnar. Gall y digollediad gynnwys gostyngiad yn lefel ffi'r drwydded a delir, ymestyn hyd cyfnod y drwydded, sicrhau nifer mwy o ddarllediadau, cyfleoedd croes-hyrwyddo, sicrhau cyfran uwch o incwm net a/neu rhyw fudd arall i S4C.

### **4. Canllawiau adolygu hawliau dal yn ôl**

- 4.1 Mae'r tabl canlynol yn rhoi rhyw syniad o'r cyfnodau dal yn ôl sy'n cael eu hystyried yn ofynion sylfaenol gan S4C. Ni fydd S4C yn barod i ystyried lleihau y cyfnod dal yn ôl ymhellach na'r cyfnodau a nodir isod, heblaw mewn amgylchiadau eithriadol.
- 4.2 Diben y tabl yw cynnig canllaw yn unig, ac ni fydd unrhyw rwymedigaeth ar S4C i gytuno i gais am ryddhau'r hawl yn gynnar. Bydd hyn yn cael ei drafod ym mhob achos, ac mae'n dibynnu ar y ffactorau golygyddol ac ariannol, a'r meini prawf a amlinellwyd yn y polisi hwn.

## Cyfnodau Dal yn Ôl – Gofynion Sylfaenol

Defnydd	Cyfnod dal yn ôl
Darllodiad gan ddarlledwr arall yn y DU	Rhaglen unigol: o ddyddiad creu'r rhaglen i ddyddiad sydd 6 mis ar ôl dyddiad darllodiad cyntaf y rhaglen ar S4C  Cyfres: o ddyddiad creu'r rhaglen i ddyddiad sydd 18 mis ar ôl dyddiad darllodiad cyntaf y bennod olaf ar S4C.
Gwerthu DVD	O ddyddiad creu'r rhaglen i ddyddiad darllodiad cyntaf y rhaglen ar S4C
Llifo ar-lein (am dâl) / Lawrlwytho i'w berchen (DTO)	O ddyddiad creu'r rhaglen i ddyddiad darllodiad cyntaf y rhaglen ar S4C
Fideo ar alw o dan danysgrifiad (SVOD) / Fideo ar alw wedi'i noddi gan hysbysebion (AVOD)	Rhaglen unigol: o ddyddiad creu'r rhaglen i ddyddiad sydd 6 mis ar ôl dyddiad darllodiad cyntaf y rhaglen ar S4C  Cyfres: o ddyddiad creu'r rhaglen i ddyddiad sydd 18 mis ar ôl dyddiad darllodiad cyntaf y bennod olaf ar S4C.
Theatrig / an-theatrig	O ddyddiad creu'r rhaglen i ddyddiad gall fod cyn dyddiad darllodiad cyntaf y rhaglen ar S4C

- 4.3 Bydd y cwmni cynhyrchu ac S4C yn dod i gytundeb ar wahân am yr hawliau dal yn ôl mewn perthynas â gallu'r cynhyrchydd i ddefnyddio dyluniad a deunydd gwefan sy'n gysylltiedig â rhaglen mewn cysylltiad â defnydd darllodwr arall neu drydydd parti o'r wefan. Bydd y fath drafodaeth yn cymryd i ystyriaeth cynnwys y wefan benodol, argaeledd bydeang y wefan a'r modd yr hoffai unrhyw drydydd parti ddefnyddio'r wefan a'r cynnwys.

## 5. Y broses er mwyn gwneud cais am ryddhau'r hawl yn gynnar

- 5.1 Unwaith y rhagwelir gwerthiant, rhaid i gynrychiolydd swyddogol y cwmni cynhyrchu sy'n berchen ar yr hawliau sylfaenol wneud cais i S4C am ganiatâd i werthu'r rhaglen.
- 5.2 Dylai'r ceisiadau fod yn rhai electronig, a dylid eu hanfon mewn neges e-bost at Bennaeth Adran Gyfreithiol S4C.
- 5.3 Ceir Ffurflen Gais safonol ynghlwm yn yr Atodlen. Dylai pob cais gynnwys y wybodaeth ganlynol:

- Manylion y rhaglen gan gynnwys, lle'n berthnasol, fanylion y cytundeb perthnasol rhwng S4C a'r cynhyrchydd, gan gynnwys cyfeirnod unigryw'r rhaglen/gyfres (Inumber);
  - Dyddiad darllediad cyntaf y rhaglen, neu bennod olaf y gyfres, ar S4C;
  - Y rhesymau dros wneud y cais i leihau'r cyfnod dal yn ôl safonol gan gynnwys unrhyw fudd i S4C neu i'r cynhyrchiad o gytuno;
  - Pwy yw'r trwyddedai arfaethedig neu'r trydydd parti y mae'r cynhyrchydd eisiau amrywio'r cyfnod dal yn ôl er ei fudd;
  - Manylion yr hawliau arfaethedig y dymunir eu rhoi i'r trydydd parti; cyfnod arfaethedig y drwydded; y nifer arfaethedig o ddarllediadau; a dyddiadau darlledu arfaethedig y darlledwr eilaidd; a
  - Y ffi drwydded arfaethedig, comisiwn y dosbarthwr (os yn berthnasol) ac unrhyw gostau gwerthiant a ragwelir.
- 5.4 Bydd pob cais yn cael ei gydnabod cyn pen pum diwrnod gwaith. Hysbysir yr ymgeisydd:
- 5.4.1 os na ddarparwyd digon o fanylion ynghylch y wybodaeth sy'n angenrheidiol er mwyn prosesu'r cais; ac
- 5.4.2 o'r amserlen er mwyn ystyried y cais.
- 5.5 Hysbysir y cynhyrchydd o benderfyniad S4C cyn pen 20 diwrnod gwaith o gyflwyno'r cais (neu pan ofynnwyd am wybodaeth bellach, cyn pen 20 diwrnod gwaith o dderbyn y wybodaeth honno). Os yw'r cynhyrchydd yn nodi wrth S4C ei fod yn dymuno ymateb o fewn cyfnod byrrach, fe fydd S4C yn ceisio darparu ymateb cyn gynted â phosib, ond cyfrifoldeb y cynhyrchydd yw ceisio caniatâd S4C mewn da bryd er mwyn galluogi ystyriaeth deg o'r cais gan S4C.
- 5.6 Gwneir penderfyniad i adolygu'r cyfnod dal yn ôl yn unol â sicrhau llofnod ar drwydded neu amrywiad i drwydded, a chan gynnwys yr amodau a thelerau perthnasol a nodir yn adran 6 y polisi hwn.

## **6. Amodau a thelerau rhyddhau'n gynnar**

- 6.1 Rhaid i unrhyw ganiatâd gael ei roi gan S4C yn ysgrifenedig a bydd yn ddarostyngedig i gydymffurfiaeth y cynhyrchydd gydag unrhyw amodau a osodir gan S4C.
- 6.2 Bydd S4C yn disgwyl i'r cynhyrchydd osod rhwymedigaeth ar ei asiantau, ei ddosbarthwyr a/neu ei drwyddedeion:-
- 6.2.1 i sicrhau cymeradwyaeth S4C os bydd gweithgarwch ymelwa ar y rhaglen yn debygol o alluogi'r cyhoedd yn y DU i gael mynediad i'r rhaglen heb fod ar Wasanaethau S4C (gan gynnwys, heb gyfyngiad, trwy gyfrwng technoleg symudol ac ar-lein);
- 6.2.2 i sicrhau cymeradwyaeth S4C ar gyfer y dyddiadau ymelwa yn y DU gan drydydd parti o'r rhaglen (ar ba bynnag lwyfan) ;

- 6.2.3 i sicrhau, ar lefel gytundebol, na fydd S4C trwy barhau i ymelwa ar ei hawliau yn y rhaglen (gan gynnwys yr hawl i ddarlledu'r rhaglen gydag isdeitlau a/neu drac sain Saesneg) yn amharu ar hawliau'r trwyddedai neu unrhyw drydydd parti yr amrywiwyd yr hawliau dal yn ôl er eu budd;
- 6.2.4 i gynnig cydnabyddiaeth i S4C yn y ffurf i'w gytuno gyda S4C, a sicrhau bod S4C yn derbyn gwybodaeth am unrhyw weithgarwch cyfathrebu, amserlennu, marchnata a/neu gyhoeddusrwydd sy'n gysylltiedig â'r darllediadau; ac
- 6.2.5 i gydymffurfio gyda darpariaethau eraill o'r fath sy'n briodol dan yr amgylchiadau, gan gynnwys trefniadau gweinyddu a chyfrifyddu ailddarllediadau.

## **7. Materion neu anghydfodau sy'n ymwneud â'r Polisi hwn**

Rheolir materion neu anghydfodau sy'n ymwneud â gweithrediad y Polisi hwn yn unol â'r gweithdrefnau a amlinellir yn Nhelerau Safonol S4C.

## **8. Adolygu**

Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau'n rheolaidd, ac o leiaf unwaith bob tair blynedd. Cyhoeddir y polisi, ac fe fydd ar gael ar Wefan Cynhyrchu S4C – Polisiâu a Chanllawiau.

**Atodlen**

**Ffurflen Gais  
Rhyddhau Hawliau Dal yn Ôl yn Gynnar**

Dyddiad y Cais:	
<b>Manylion y Cynhyrchydd:</b>	
1. Enw	
2. Cyswllt	
3. Cyfeiriad e-bost	
<b>Manylion y Rhaglen:</b>	
1. Teitl y Rhaglen	
2. Cyfeirnod y Rhaglen (Inumber)	
3. Manylion y cytundeb perthnasol rhwng S4C a'r Cynhyrchydd	
4. Dyddiad darllediad cyntaf y rhaglen/pennod olaf y gyfres ar S4C	
<b>Manylion y Trwyddedai/Trydydd Parti:</b>	
1. Trwyddedai arfaethedig	
2. Hawliau i'w rhoi i'r trwyddedai arfaethedig	
3. Cyfnod arfaethedig y drwydded	
4. Nifer arfaethedig o ddarllediadau	
5. Dyddiadau darlledu arfaethedig	
6. Ffi drwydded arfaethedig	
7. Comisiwn y dosbarthwr	
8. Costau gwerthiant a ragwelir	
<b>Manylion Pellach:</b>	
1. Rhesymau dros wneud y cais	